

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Chwefror 18fed - 2015
am 7.30 o'r gloch.

1. Presennol - Cynghorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Geraint Parry (Clerc), Maldwyn Williams (MW), Dafydd Pritchard (DP), Bari Gwilliam (BG), Paul Gash (PG), Alwyn Rowlands, Alwena Roberts (AR) a Rhian Hughes (RH).

2. Ymddiheuriadau - Cyng. Mark Williams (tymor hir), Gill Cheverton, Carwyn Jones a Lewis Davies.

3. Datgan Ddiddordeb

Cyng. M Williams ar drafodaeth Tyddyn Waun

Cyng. P Gash ar drafodaeth cais 22C148B Tyddyn Bach

Cyng. M Roberts ar drafodaeth cais 22C199A Penhwnllys Plas

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain o Ionawr fel rhai cywir gan Cyng. B Gwilliam, eilio gan Cyng. D Pritchard, gan newid un pwynt.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 **Fynwent Llanddona** - MR wedi cysylltu â chyfreithiwr y Cyngor Sir ar y mater.

5.2 **Difrod ar y Traeth** - dim newyddion ymhellach.

5.3 **Gwasanaeth Cymdeithasol, adeiladu cymunedau Pobl Seiriol** - Cyng. A Rowlands yn adrodd - wedi ymuno a chyfarfod ar 12/2/2015 yn Lolfa Maes Gwyn. Noson Bingo wed ei drefnu 20/02/15. Canolfan Biwmares yn cynnig cymorth trwy gael defnydd o'r bws cymunedol newydd. Cyfarfod wedi ei drefnu ar 23/02/15 am 7.30 yn Neuadd Pentre' Llangoed i drafod ffordd ymlaen gyda Gerddi Haulfre.

5.4 **Cerrig ger Llain Gron** - Clerc wedi ysgrifennu i berchennog Llain Gron wrth esbonio sefyllfa gyda'r gwasanaeth wast. Teimlad fod y Cyngor Sir yn negyddol o gylch y sefyllfa, ond am drafod y posibilrwydd cael lori lai i wasanaethu'r ardal. MW yn adrodd fod y posibilrwydd na chriw gwahanol oedd yn gweithio dros gyfnod gwyliau Nadolig. Penderfynwyd monitro sefyllfa am nawr ac anfon llythyr ymlaen i'r perchennog gan ofyn iddynt symud y cerrig oddi wrth y tir comin, ac awgrymu ein bod ni yn gwneud ein gorau i fonitro'r sefyllfa.

5.5 **Baw Cŵn** - mae yn broblem fawr o gylch y pentre'. Fydd y broblem yma ym mharhaus bod y Cyngor Sir yn mynd a rhywun i'r Llys. Arwyddion nawr wedi ei gosod ar y biniau.

5.6 **Lôn Chwarel Wen** - gwaith wedi ei gwblhau.

5.7 **Graeanu Lôn Hafoty** - MR wedi trafod y mater gyda'r Cyngor Sir, gan egluro fod y cyllid wedi ei gwtogi yn hallt iawn ac ni allant fforddio i graeanu'r ffordd yma. Cyng. A Rowlands i drafod y mater gyda'r Cyng. L Davies.

BG yn gofyn a fuasai'n bosib cael gost i bwrcasu halen er mwyn cael graeanu ffordd Hafodty. Fuasai'r Cyngor Sir yn graeanu ar ôl y 36 awr gyntaf. Hefyd byddai Cyngor Cymuned Cwm Cadnant yn gyfrifol o graeanu ei ardal nhw hynna'n. Clerc y cysylltu â Cyngor Cymuned Cwm Cadnant.

5.8 **Cyllideb y Cyngor Sir** - wedi penderfynu codi'r dreth 4.5%

5.9 **Ysgol Llanddona** - RH yn adrodd, fod Pwyllgor y Neuadd i gael cyfarfod gydag Arweinydd y Cyngor Sir yn y pythefnos nesaf. Wedi derbyn costau cynnal a chadw'r Ysgol ond mae'r ffigyrau yn anghywir. Mae'r pwyllgor dal yn ansicr be fydd y Cyngor Sir yn cynnig fel gwerth gorau. Loteri wedi datgan y byddant yn derbyn prisiad gan brisiwr annibynnol yn unig.

5.10 **Parcio ger Pen Helyg** - BG wedi trafod y mater gyda'r Heddlu.

6. Adroddiad gan y Cynghorwyr

AR - Cyngor Sir yn cael cyfweiliad wythnos nesaf gan y Swyddfa Archwilio Cymraeg - asesiad Corfforaethol. Hefyd wedi bod yn trafod cyllideb ar gyfer 2015/16 wrth herio'r gwasanaethau i wneud toriadau. Wedi gosod treth y Cyngor ar 4.5% am 2015/16. Fydd mwy o bwyslais nawr gyda gwthio gwasanaethau allan i'r gymuned.

Prif Weithredwr wedi penderfynu ymddeol ar ôl yr etholiad. Cyngor bellach wedi hysbysebu'r swydd drwy leihau'r cyflog.

Cyngor hefyd wedi penderfynu uwchraddio swyddfa'r, cynllun i gynilo a dod i mewn egwyddorion gweithio callach.

Neges e-bost gan LD - cwynion bod y coed ar gomin y Rhos yn gôr dyfu ac yn dechrau amharu ar weledigaeth o dai lleol. MR wedi codi'r mater gyda swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru, lle mae yn broblem fawr yn bob man, dim arian o Ewrop i ddatrys y broblem. I drafod ymhellach.

Hefyd wedi derbyn cais gan breswlydd lleol a oes bosib cael wyneb caled ar ddarn o dir ger y tai Cyngor wrth fynedfa i'r chwe byngalo. Mae'r tir yn cael ei defnyddio yn barod ar gyfer parcio, ond byddai'n rhaid

ystyried materion iechyd a diogelwch oherwydd bod y tir ar gornel y ffordd. Dilyn trafodaeth, cytunwyd i ofyn i LD gwneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir.

7. Ceisiadau Cynllunio

- 22C44C/DEL - Cais o dan adran 73 i dynnu amod (06)(codi annedd) o caniatad cynllunio 22C44 yn Tyn Rardd, Sling – o blaid i dynnu'r amod.
- 22C175B - Cais llawn ar gyfer newid defnydd y modurdy presennol ynghyd ac addasu ac ehangu i greu uned gwyliau yn Pandy, Llanddona - cytuno gan fod yr adeilad ddim rhy fawr.
- 22C199A - Cais i bennu os oes angen caniatad blaenorol ar gyfer codi sied amaethyddol i storio gwair a pheiriannau yn Penhwnllys Plas, Llangoed - Nid yw hyn yn benderfyniad i'r Cyngor Cymuned.
- 22C194B - Cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda'r holl faterion wedi'u gadw'n ôl ym Mrynteg Cottage, Llanddona - Os nad yn niweidiol i eiddo eraill.
- 22C194A - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ym Mrynteg Cottage, Llanddona - ar yr amod nad yw'n effeithio eiddo cyfagos.
- 22C148B - Cais llawn ar gyfer creu manage ar gyfer defnydd preifat yn Tyddyn Bach, Llanddona – dim gwrthwynebiad.

Er Gwybodaeth

- 22C190B/LUC - Cais am dystysgrif gyfreithlon ar gyfer defnydd presennol er mwyn dangos fod dechrau sylweddol wedi ei wneud ar ganitad cynllunio 22C190A/DA ar dir ger Glyndwr, Llanddona - awrduddod cynllunio yn fodlon fod y defnydd a nodir yn gyfreithlon.

8. Tir Tyddyn Waun

Derbyniwyd copi o'r dogfennau trawsgludo sy'n ymwneud a'r tir. Cyngor Cymuned wedi cytuno i drosglwyddo'r tir hwn ar y ddealltwriaeth cael datganiad gan ein cyfreithiwr bod y tir ym mherchnogaeth Mr a Mrs Walker. Yn dilyn hyn bydd angen i gyfreithiwr MW i gofrestru'r tir drwy swyddfa gofrestrfa tir.

9. Peilonau

National Grid wedi penderfynu gosod llinell newydd uwchben tir ar beilonau o'r Atomfa newydd yn Wylfa i'r orsaf ym Mhentir, gyda'r llinell yn mynd o dan ddaear yn Afon Menai.

Penderfynwyd gwahodd cynrychiolydd i ein cyfarfod er mwyn trafod y mater ymhellach. Clerc i gysylltu.

10. Torri coed ger Tai Bach

Wedi derbyn cwyn am faint o goed sydd wedi cael ei dorri yn ddiweddar ger eiddo Mr O Parry, Pensarn. Dilyn hyn, MR wedi ymweld ar safle, lle mae wedi torri coeden sycamorwydden. Oedd yn glir bod yn mynd i dorri dwy goeden helyg eraill ger ei eiddo lle roddwyd caniatâd yn flaenorol.

Penderfynwyd bod angen cofnodi unrhyw ganiatâd yn y dyfodol, ac anfon llythyr i'r achwynydd.

11. Llwybr Tai Bach

Dim wedi derbyn unrhyw wybodaeth bellach.

12. Cyfrifon

Penderfynwyd talu:-

- Aelodaeth Un Llais 2015/16 - £97.00
- J Roberts, gwaith awdit mewnol 2013/14 - £42.00

Incwm

- Cyngor Sir, ad-daliad gynnal llwybrau cyhoeddus - £1,374.06

13. Gohebiaeth

Llythyr – Pensions Regulator

Llythyr – Cyngor Sir, graeanu ffordd Hafoty

Apêl - Papur Menai

Llythyr – Taith Beics

Llythyr – Leighton Andrews, perthynas phersonoli beddau.

e-bost – cwyn Cyng. C Jones, coed wedi torri ger Pensarn

e-bost - Cyng. C Jones, Iolfa Maes Gwyn

e-bost – Cyng. L Davies

e-bost – H Percy, lôn gul ger Llain Gron

14. UFA:

14.1 Clerc yn egluro bod angen gweithredu pensiwn gweithle.

14.2 Cynllun Datblygu Lleol, Gwynedd a Môn – Rhestr wedi ei greu ar gyfer dosbarthu'r cynllun er mwyn derbyn unrhyw sylwadau erbyn 31/03/15.

14.3 BG - pobl wedi mynd ar goll wrth ddilyn llwybr troed trwy Mynydd Llwydiarth Pentraeth hyd at Traeth Coch oherwydd bod yr arwyddion wedi cael eu symud ger Fferm Glanrafon.

14.4 Noson Cawl a Chan 21/02/15 am 3.30 yn Neuadd y Pentre'.

15. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.45 o'r gloch.

Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 18/03/15 am 7.30 yn Capel Peniel.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad